

*Cwmpas y Cynllun Gweithredu:*

Mae'r cynllun hwn yn trafod coed derw tir uchel<sup>1</sup>, cynefin blaenoriaeth CGB y DU, y prif fath o goedlan gynhenid mewn rhannau helaeth o ogledd a gorllewin Prydain<sup>a</sup>. Nodweddir y coed derw tir uchel gan dra-niferedd o goed derw, yn gyffredinol derw disymud *Quercus petraea*, ac yn graddio i goed ynn cymysg ucheldir ar briddoedd mwy bâs-gyfoethog neu briddoedd sgydiog asidig, ac i goetiroedd gwlyb gyda'r wernen *Alnus glutinosa* ar briddoedd gwlypach ar waelod dyffrynnoedd ac ar hyd nentydd.

## 1. STATWS PRESENNOL


## 1.1 Deddfwriaeth a Statws blaenoriaeth

Rhyngwladol	Cyfarwydddeb Cynefinoedd <sup>b</sup> (Atodiad I) <sup>c</sup>
DU a Chymru	Deddfwriaeth SoDdGA <sup>d</sup> (rhai coed derw tir uchel) Deddfwriaeth Gorchymyn Gwarchod Coed (GGC) <sup>e</sup> Blaenoriaeth CGB DU Rhestr S74 Cymru <sup>f</sup>
Gwynedd	CGB Eryri

## 1.2 Statws yng Nghymru a thu hwnt

Mae coed derw tir uchel yn bodoli'n bennaf yn ne-orllewin Lloegr, Cymru, gogledd Lloegr (yn enwedig Cumbria) a'r Alban. Nid yw'r arwynebedd cyfan yn sicr oherwydd cofnodion anghyflawn a chymhlethdodau ynghylch diffiniadau, ond amcangyfrifir eu bod oddeutu 80,000 - 110,000 ha<sup>2</sup>. Mae coed derw tir uchel i'w gweld drwy Gymru gydag crynhoad ym Meirionnydd, Ceredigion a Sir Benfro. Mae coed derw tir uchel yn gorchuddio ochrau serth dyffrynnoedd ac yn dod i lawr at yr arfordir yng ngorllewin Cymru.

Amcangyfrifir bod 39,000 ha o goed derw tir uchel yng Nghymru, tua 40% o gyfanswm y DU<sup>2</sup>. Ar lefel fyd-eang, gwelir bod cynefinoedd sy'n gyfystyr â choed derw tir uchel wedi eu cyfyngu bron yn gyfan gwbl i Brydain ac Iwerddon, felly mae gan Cymru gyfrifoldeb rhyngwladol sylweddol am y cynefin hwn.



<sup>a</sup> mae'r term 'tir uchel' yn cyfeirio at nodweddion ffisiograffeg cyffredinol yr ardal ble y maent yn bodoli yn hytrach nag unrhyw ffin uchder ar eu bodolaeth

<sup>b</sup> Cyfarwydddeb Cyngor 92/43/EEC o 21 Mai 1992 ar gadwraeth cynefinoedd naturiol ac o amfeiliaid a phlanhigion gwylt.

<sup>c</sup> Nodir "hen goetiroedd o dderw disymud gyda Ilex a Blechnum yn yr Ynysoedd Prydeinig" yn Atodiad I o'r "Cyfarwyddyd Cynefin" - Rheoliadau Cadwraeth Ewropeaidd (Cynefinoedd Naturiol) 1994

<sup>d</sup> Deddf Bywyd Gwylt a Cefn Gwlad 1981, Deddf Cefn Gwlad a Hawl Tramwy (CRoW) 2000

<sup>e</sup> Deddf Asesu Amgylcheddol a Chynllunio 1979

<sup>f</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mynd yn Wylt yng Ngwynedd- Rhestr o Rywogaethau a Chynefinoedd Pwysig Iawn er mwyn Gwarchod Amrywiaeth Fiolegol. Hawlfraint y Goron, 2003.

### 1.3 Statws yng Ngwynedd<sup>9</sup>

Nodir yn CGB y DU fod Gwynedd/ Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnwys y crynoadau mwyaf dwys o goed derw tir uchel yn y DU. Yn ôl bâs-data Arolwg Coedlannau Gogledd Cymru gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru 1985 mae 11 o goetiroedd derw tir uchel (>6 ha), er bod dal sawl ardal fechan ddarniog o goetiroedd derw sydd hefyd o bwys. Amcangyfrifir mai arwynebedd y coed derw tir uchel yng Ngwynedd yw 1100 ha<sup>2</sup>.

Ni wyddys os yw'r adnodd yn dirywio yng Ngwynedd, er ei bod yn bur debyg mewn blynyddoedd diweddar fod unrhyw ddirywiad wedi ei atal o ganlyniad i weithredu rheolaeth i gadw a chynyddu'r cynefin hwn. Llwyddwyd i glirio rhai coedwigoedd a oedd wedi eu difetha gan rhododendron trwchus oddi wrth y chwyn niweidiol yma, a dylent yn awr wella os oes gwyliadwriaeth gyson am y pla hwn er mwyn medru ei adnabod a'i glirio'n brydlon.

## 2. FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR Y CYNEFIN YNG NGWYNEDD

- Clirio coed yn y gorffennol sydd wedi arwain at dwf cnwd o goed cymharol ifanc, sydd tua'r un oed ac yn yr un lle.
- Torri coetiroedd derw ac ail-blannu gyda choed conwydd, hefyd tan-blannu (daeth i ben yn yr 1980au) gyda choed conwydd egsotig, yn arbennig cegid y gorllewin *Tsuga heterophylla* a ffynidwydden Douglas *Pseudotsuga menziesii*, sy'n effeithio ar lefelau goleuni ac ansawdd pridd, ac yn ei dro'n effeithio ar yr anifeiliaid a phlanhigion gwyllt.
- Colli cynefin i ddatblygiadau tir (lonydd, tai, ayb.) neu i amaethyddiaeth
- Rhoi'r gorau i reolaeth hanesyddol, fel coedlannu, sy'n arwain at ddirywiad mewn amrywiaeth strwythurol a cholled cynnyrch coedlannau. (Er fod coedlannu yn llai arwyddocaol yng ngogledd Cymru, roedd gan gynnyrch y coetiroedd werth economaidd a oedd yn ffafrio ei gadw fel coetir yn hytrach na'i droi'n dir amaethyddol).
- Lefelau pori amhriodol. Mae gorbori, yn enwedig gan ddefaid, yn rhwystro neu'n cyfyngu ar adfywiad. Gall geifr gwyllt hefyd niweidio brigau a rhwygo'r rhisgl i gyd. Ond lle nad oes pori o gwbl, gall hynny hefyd fod yn niweidiol i amrywiaeth strwythurol a gall arwain at i haenan o'r cae gysgodi planhigion is.
- Mae ymwithiad gan rywogaethau estron, yn enwedig y *Rhododendron ponticum*, yn rhwystro neu'n dinistrio adfywiad naturiol a datblygiad isdyfiant cynhenid a blanhigion'r maes a'r anifeiliaid gwyllt cysylltiedig. Hefyd mae'r sycamorwydden *Acer pseudoplatanus* a'r ffawydden *Fagus sylvatica*, a choed conwydd egsotig yn adfywio'n naturiol o hadau a ddaw o blanhigfeydd cyfagos.
- Gall llygredd o'r awyr, yn enwedig mewnbynnau nitrogen ac asideiddio, effeithio ar briddoedd a dŵr priddoedd gydag effaith olynol ar blanhigion ac anifeiliaid gwyllt.
- Gall niwed gan wiwerod llwyd fod yn broblem mewn rhai coetiroedd derw tir uchel.

## 3. CGR A CGC CYSYLLTIEDIG YNG NGWYNEDD

Coetiroedd gwlyb, Coed ynn cymysg ucheldir, Coedlannau prysgoed, Coed hynafol, porfeydd coetiroedd isel a pharcdir.

Bele'r Coed, Ystlumod, Cnocell Werdd, Clychau'r Gog.

<sup>9</sup> O fewn y ddogfen yma mae'r term 'Gwynedd' yn cyfeirio at ardaloedd tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri, oni bai ei fod yn nodi i'r gwrthwyneb

## 4. CAMAU GWEITHREDU PRESENNOL YNG NGWYNEDD

### 4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Diogelir llawer o goed derw tir uchel trwy eu dynodiadau SoDdGA neu GNC neu dan GGCs yng Ngwynedd. O'r unarddeg o goetiroedd derw tir uchel a archwiliwyd yng Ngwynedd mae wyth yn SoDdGAau ac un (Coed Tremadog, SH569 406) yn GNG. Fodd bynnag mae'r rhan fwyaf o goed derw tir uchel Gwynedd yn fychan (oddeutu 2ha) ac mae'n debyg eu bod dan fygythiad yn bennaf oherwydd nad ydynt wedi eu dynodi ac yn aml yn cael eu rheoli'n amhriodol.
- Mae angen trwyddedau torri coed Comisiwn Coedwigaeth i dorri mwy na 5 medr ciwbig o goed mewn unrhyw un chwarter, heblaw am y coed hynny a eithrir o drwyddedu.

### 4.2 Rheoli a Rhaglenni Gweithredu


- Gellir cael cymorth grant trwy Gynllun Grant Coedlannau'r Comisiwn Coedwigaeth er mwyn rheoli coed derw tir uchel a phlannu coedlannau cynhenid newydd (ar hyn o bryd Cynllun Grant Coedlannau, Cronfa Her CCTh) ac er mwyn darparu Cynlluniau Rheoli Coetiroedd Cynhenid. O dan gynllun Gwell Coetiroedd i Gymru sydd i'w gyflwyno yn 2005, bydd y system grant yn cael ei hadolygu a grantiau'n cael eu seilio ar gynlluniau rheolaeth tymor hir.
- Ar hyn o bryd, mae angen Cynlluniau Rheoli Coetiroedd Cynhenid ar gyfer holl ffermydd Tir Gofal sydd gyda choedlannau mwy na 3 ha. Gellir cyllido Cynlluniau Rheoli Coetiroedd Cynhenid ar sail wirfoddol ar gyfer ardaloedd eraill o goedlannau, neu ar ffermydd Tir Gofal sydd gyda choedlannau llai.
- Gall cytundebau o dan gynlluniau Tir Gofal a rhai amaeth-gadwriaeth eraill gynnwys amod sy'n gwahardd stoc o'r coedlannau
- Disgwylir i bob coedlan gael ei rheoli yn unol â Safon Coedwigaeth DU 1998, safon genedlaethol ar gyfer rheolaeth fforestydd cynaliadwy; gellir hefyd gael dynodiad cynaladwyaeth ychwanegol sydd wedi ei gytuno gan y diwydiant, sef Cynllun Sicrwydd Coedlannau DU
- Mae holl goetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol (sef coedwigoedd y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru) wedi eu dynodi'n annibynnol i fod o Safon Coedwigaeth DU 1998.
- Mae Strategaeth Coedlannau Llywodraeth Cynullaid Cymru (LICC) i Gymru yn amlinellu'r nod ar gyfer rheolaeth gynaliadwy o goed Cymru i'r dyfodol, sy'n cael ei hybu'n lleol gan Coed Cymru
- Mae menter coedlannau Coed Cymru wedi bod yn flaenllaw yn galluogi rheolaeth briodol o goedlannau cynhenid ar lefel leol, gyda chefnogaeth gan, ac yn defnyddio cymorth grant gan y Comisiwn Coedwigaeth, awdurdodau lleol ac eraill.
- Datblygwyd templed ar gyfer fformat cynllun rheolaeth i goetiroedd derw ucheldirol sydd heb fod mewn SoDdGA.
- Lanswyd grŵp clwstwr lleol Menter Addysg Fforestydd ("Hadau") yn 2001, wedi ei leoli ym Mangor (PCB)
- Mae Cyngor Gwynedd yn rhedeg meithrinfa blanhigion yng Nglynllifon gyda'r amcan o dyfu a hybu defnydd stoc o darddiad lleol.
- Cyflwynwyd cais Amcan 1 yn ddiweddar i reoli cynefin rhai o goed derw tir uchel Meirionnydd.

### 4.3 Arolygon, ymchwilio a monitro

- Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar hyn o bryd wrthi'n mesur maint yr ardaloedd presennol o goetiroedd trwy raglen arolwg a chofnodion.
- Rhaid cael arolygon ecolegol fel rhan o'r broses Cynlluniau Rheoli Coetiroedd Cynhenid

## 5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. I gynyddu ein gwybodaeth ynghylch dosbarthiad ac ansawdd coed derw tir uchel yng Ngwynedd.
2. I gynnal yr ardal bresennol o goetiroedd derw ucheldirol a sicrhau ei reolaeth briodol tymor-hir.
3. I ymhelaethu / adfer ardaloedd o goed derw tir uchel ble y bo'n briodol, er mwyn cynyddu yr ardal gyfan o goetiroedd yr ucheldir o tua 10%<sup>h</sup>



## 6. CAMAU ARFAETHEDIG

Côd	Gweithredu	Partner(iaid) <sup>i</sup>
<b>Polisi a Deddfwriaeth</b>		
1	Ystyried sefydlu gweithgor ar y cyd gyda APCE i sicrhau gweithrediad effeithiol cynlluniau coedlannau Eryri a Gwynedd TARGED/AMSERLEN: BY 2005	CG, CCGC, APCE, CcTh ,CC
2	Defnyddio amodau cynllunio i sicrhau fod datblygiadau manau sensitifl yn cydfynd â Coetiroedd derw yr ucheldir TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, partneriaid perthnasol
3	Sicrhau fod yr holl enghreifftiau o goetiroedd der yr ucheldir sy'n cwrdd â'r meini prawf perthnasol yn cael eu dynodi'r Safleoedd Bywyd Gwyllt TARGED/AMSERLEN: Cychwyn ar y broses ddynodi yn ystod 2004	CG, CBNGC
4	Sicrhau fod unrhyw gynlluniau grant a weinyddir gan sefydliadau partneriaethol e.e. grantiau CcTh, Tir Gofal, yn gosod amod fod rhaid i unrhyw goed a blannir fod yn stoc o darddiad lleol cynhenid ac yn cael eu cynhyrchu'n gynaliadwy ac yn cymryd i ystyriaeth lawn anghenion rheoli coed derw tir uchel. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, CCGC, CcTh, CC, ADC, AACChG
<b>Rheoli a Diogelu Rhywogaethau / Cynefinoedd</b>		
5	Hybu a chefnogi cynlluniau grantiau yn cynnwys grantiau CcTh a / neu gytundebau rheoli ble bo hynny'n briodol i sicrhau rheolaeth ffafriol ac / neu adfer coetiroedd derw ucheldirol, gan gymryd i ystyriaeth anghenion rhywogaethau a chynefinoedd CGB cysylltiedig TARGED/AMSERLEN: Rheolaeth ffafriol o 75% Adfer / creu 100ha erbyn 2009	CC, CCGC, CcTh, CyT, AACChG, CG UAC
6	Chwilio am gyllid ar gyfer rheoli tir trwy ddatblygu cynllun grant bioamrywiaeth, a fyddai'n cynnwys grantiau ar gyfer rheolaeth, adferiad briodol o goetiroedd derw ucheldirol. Gan gymryd i ystyriaeth anghenion rhywogaethau a chynefinoedd CGBG eraill TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, Partneriaid perthnasol
7	Sicrhau cynllun rheoli cyson ar gyfer coetiroedd derw ucheldirol sydd heb fod mewn SoDdGA TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CC, GC, CcTh, CCGC, YG, CC

<sup>h</sup> Yn sicrhau nad yw hyn yn niweidiol i unrhyw gynefin ac / neu rywogaeth CGB Gwynedd arall.

<sup>i</sup> Mae'r prif bartner ar gyfer y gweithedu hwn wedi ei nodi mewn print du, gweler rhan 7.2 am eglurhad o'r byr foddau

<b>Cyngor</b>		
8	Cynnig cyngor integredig (yn cynnwys cymhorthion cyllidol, dulliau coedwrol, marchnata cynnyrch, a gwella cadwraethol) ar gyfer rheolaeth y coedlannau presennol a choedlannau a estynnir. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CC, CCGC, CCTh, CFC, CBNGC, CoCa
9	Parhau i gynnis cyngor ar ddefnydd dulliau naturiol o sefydlu coedlannau a'r defnydd o ddeunyddiau plannu o darddiad lleol TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CC, CCGC, CCTh, CG, CBNGC
<b>Arolygon, ymchwil a monitro</b>		
10	Adnabod yr holl safleoedd coetiroedd derw yr ucheldir drwy gofnodion o'r holl ddata sydd ar gael (arolygon bywyd gwyllt, Cam Un ac eraill) a gwaith archwilio ecolegol addas, a thargeddu safleoedd allweddol ar gyfer rheoli, (data i'w gadw ar ffurf electronig) TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2006	CG, CC, CCGC, CCTh, CEH, CBGGC, PCB
11	Adnabod coetiroedd derw yr ucheldir sy'n cynnig ffynonellau posib o hadau addas ar gyfer gweithredu ac ehangu Glynllifon ac o bosib meithrinfeydd planhigion eraill sydd gyda stoc o darddiad lleol (data i'w gadw ar ffurf electronig) TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2006	CG, CC, CCGC, CEH, CCTh, PCB
<b>Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd</b>		
12	Parhau i gefnogi a datblygu ymhellach grŵp clwstwr CG o FEI (Hadau) TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	MAG, holl bartneriaid allweddol
13	Parhau i redeg Meithrinfa Coed Cynhenid yng Nglynllifon, a thrwy hon hybu defnydd stoc o darddiad lleol a thyfu coed cynhenid o hadau ar lefel leol TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG
14	Codi ymwybyddiaeth gyhoeddus o goetiroedd derw ucheldirol a'u cadwraeth trwy ddiwrnodiau agored, teithiau cerdded, dehongli a digwyddiadau, e.e. Sul Casglu Hadau TARGED/AMSERLEN: Dechrau yn 2004	CCTh, CC, CG, MEF, CBNGC, MAG, CCB.

## 7 PARTNERIAID A CHYFLEON

### 7.1 Prif bartner y CGC

Comisiwn Coedwigaeth (CCTh)

### 7.2 Partneriaid allweddol

Awdurdod Datblygu Cymru (ADC)

Adran Amgylchedd Cynllunio a Chefn Gwlad (AACChG)

Coed Cymru (CC)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Canolfan ar Ecoleg a Hydroleg (CEH)

Comisiwn Coedwigaeth (CCTh)

Cymdeithas y Tirfeddianwyr (CyT)

Menter Addysg Coedwigaeth (MAC)

Cymdeithas Fforestydd a Choed (CFC)

Cyngor Gwynedd (CG)

Ymddiriedolaeth Genedlaethol (YG)

Grŵp Cyngori Ffermio a Bywyd Gwyllt (GCFBG)

Cymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru (CBNGC)

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)

Cymdeithas Coedlannau Bach (CCB)

Menter Addysg Goedwigaeth (MAC)

Prifysgol Cymru Bangor (PCB)

Awdurdod Datblygu Cymru (ADC)

Cymdeithas Coedwigoedd bychain

Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (UCF)

Ymddiriedolaeth Genedlaethol (YG)

## 7.3 Cyfleon

Tyfwyr coed, perchnogion coedlannau, contractwyr coed a choedlannau, ysgolion, colegau, canolfannau a grwpiau cymunedol

## 8. DIOLCHIADAU

**Awdur:** Athro John Good (CEH)

**Ymgynghorwyr:** Gareth Howells, Jim Latham (CCGC), Mike Hesketh (CCGC), Paul Day (CCGC), Peter Jones (CCth), Mike Langley (CC), Chris Wynne (CBNGC), Wendy Joss (CCth)

**Darluniau Ilinell:** English Nature

## 9. BYRFODDAU

**CGB:** Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, **AAS:** Ardaloedd Amgylchedd Sensitif, **CGC:** Cynllun Gweithredu Cynefin, **CGR:** Cynllun Gweithredu Rhywogaeth. SoDDGA Safle o ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. **GCC:** Gorchymun Gwarchod Coed, **JNCC:** Cyd Bwyllgor Cadwraeth Natur, **GNG:** Gwarchodfa Natur Genedlaethol, **CGBL:** Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

---

<sup>1</sup> UK Biodiversity Group classification- Jackson, D.I. 2000. Guidance on the interpretation of the Biodiversity Broad Habitat Classification (terrestrial and freshwater types): Definitions and the relationship with other habitat classification. JNCC Report rhif 307

<sup>2</sup> Jones, P.S. et al, 2003. Priority habitats of Wales: a technical guide. CCGC.